



# RHESTR O WELLIANNAU WEDI’U GOSOD MEWN TREFN MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)  
Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure

Mae’r gwelliannau â \* ar eu bwys yn rhai newydd neu’n rhai sydd wedi’u haddasu  
Amendments marked \* are new or have been altered

Caiff y Mesur ei ystyried yn y drefn a ganlyn –  
The Measure will be considered in the following order –

Sections 1-3	Adrannau 1-3
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 4 & 5	Adrannau 22-24
Schedule 2	Atodlen 2
Sections 6 - 19	Adrannau 22-24
New Sections	Adrannau Newydd
Long Title	Teitl Hir

## **Kirsty Williams**

2

Section 8, page 6, line 6, leave out ‘give directions’ and insert ‘make regulations’.  
Adran 8, tudalen 6, llinell 6, gadewch allan ‘roi cyfarwyddiadau’ a rhowch yn ei le ‘wneud rheoliadau’.

## **Kirsty Williams**

3

Section 8, page 6, line 11, leave out ‘may be directed’ and insert ‘specified in regulations’.  
Adran 8, tudalen 6, llinell 12, gadewch allan ‘bennir’ a rhowch yn ei le ‘nodir mewn rheoliadau’.

**Kirsty Williams**

4

Section 8, page 6, line 13, leave out 'a direction given' and insert 'regulations made'.

Adran 8, tudalen 6, llinell 14, gadewch allan 'cyfarwyddyd a roddir' a rhowch yn ei le 'rheoliadau a wneir'.

**Kirsty Williams**

5

Section 8, page 6, line 15, leave out 'directed' and insert 'required'.

Adran 8, tudalen 6, llinell 16, gadewch allan 'a bennir' a rhowch yn ei le 'gofynnol'.

**Kirsty Williams**

1

**(1) Statutory Instruments made under sections 3(3), 5(4) and 6(3)**

- (1) Before the Welsh Ministers make an order under section 3(3), 5(4) or 6(3), they must consult such persons as appear to them to be representative of interests affected by their proposals.
- (2) If, following consultation under subsection (1), the Welsh Ministers propose to make an order under sections 3(3), 5(4) or 6(3), they must lay before the National Assembly for Wales a document including –
  - (a) an explanation of the proposals;
  - (b) a draft of the proposed order; and
  - (c) details of the consultation under subsection (1).
- (3) Where a document is laid before the National Assembly for Wales under subsection (2), a draft of an order under sections 3(3), 5(4) or 6(3) to give effect to the proposals (with or without modification) must not be laid before the Assembly until after the expiry of the period of sixty days beginning with the day on which the document was laid.
- (4) In calculating the period mentioned in subsection (3) no account is to be taken of any time during which the National Assembly for Wales is dissolved or is in recess for more than four days.
- (5) In preparing a draft order under sections 3(3), 5(4) or 6(3), the Welsh Ministers must consider any representations made during the period mentioned in subsection (3).
- (6) A draft order laid before the National Assembly for Wales in accordance with section 17(4) must be accompanied by a statement of the Welsh Ministers giving details of –
  - (a) any representations considered in accordance with subsection (5); and
  - (b) any changes made to the proposals contained in the document laid before the National Assembly for Wales under subsection (2).'

**‘(1) Offerynnau Statudol a wneir o dan adrannau 3(3), 5(4) a 6(3)**

- (1) Cyn i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan adrannau 3(3), 5(4) neu 6(3), rhaid iddynt ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau yr effeithir arnynt gan eu cynigion.
- (2) Os bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori o dan isadran (1), yn cynnig gwneud gorchymyn o dan adrannau 3(3), 5(4) neu 6(3), rhaid iddynt osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddogfen yn cynnwys—
  - (a) esboniad o'r cynigion;
  - (b) drafft o'r gorchymyn arfaethedig; ac
  - (c) manylion yr ymgynghoriad o dan isadran (1).
- (3) Os gosodir dogfen gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan isadran (2), rhaid i ddrafft o orchymyn o dan adrannau 3(3), 5(4) neu 6(3) i roi effaith i'r cynigion (wedi neu heb eu haddasu) beidio â chael ei osod gerbron y Cynulliad hyd oni fydd cyfnod o drigain o ddiwrnodau yn dechrau ar y diwrnod y gosodwyd y ddogfen wedi dod i ben.
- (4) Wrth gyfrifo'r cyfnod a grybwyllir yn isadran (3) nid yw unrhyw amser pan yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu pan yw'r Cynulliad Cenedlaethol mewn cyfnod o doriad o fwy na phedwar diwrnod i'w gyfrif.
- (5) Wrth baratoi gorchymyn drafft o dan adrannau 3(3), 5(4) neu 6(3), rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw gynrychioliadau a wnaed yn ystod y cyfnod a grybwyllir yn isadran (3).
- (6) Rhaid i ddatganiad gan Weinidogion Cymru fynd gyda gorchymyn drafft a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 17(4) a rhaid i'r datganiad roi manylion ynghylch—
  - (a) unrhyw gynrychioliadau a ystyriwyd yn unol ag isadran (5), a
  - (b) unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion a gaiff eu cynnwys yn y ddogfen osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan isadran (2).'